## Gwasanaethau Treftadaeth yng Nghymru

## Cylch Gorchwyl y Grŵp Llywio

### Rôl a Chwmpas

Gan weithio o fewn y fframwaith eang a bennir gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, bydd y grŵp llywio'n adolygu ac yn datblygu'r opsiynau sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r ymrwymiad maniffesto i greu 'Cymru Hanesyddol', fyddai'n dod â nifer o swyddogaethau masnachol Cadw ac Amgueddfa Cymru ynghyd.

Bydd y grŵp llywio yn defnyddio canfyddiadau adroddiad PwC, *Investing in the future to protect the past* ac yn pennu pa sefydliadau a swyddogaethau sy'n rhan o gwmpas yr adolygiad. Gallent hefyd gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Gallai'r grŵp hefyd ystyried cynigion gwahanol a allai gyflawni'r un nodau a hefyd wireddu potensial masnachol cyrff a sefydliadau treftadaeth Cymru, gan ddiogelu eu annibyniaeth, hunaniaeth, eu hygrededd a'u diben craidd unigol.

Bydd y grŵp yn sicrhau bod ystyriaethau o ran staff yn rhan annatod o brosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau a bod Cymru Hanesyddol, waeth pa gyfansoddiad a argymhellir ar ei gyfer, yn creu cyfleoedd gwirioneddol ar gyfer ymwneud â staff, datblygu staff a galluogi staff i gamu ymlaen yn eu gyrfa.

Bydd y grŵp yn rhoi ystyriaeth lawn i'r cyd-destun ehangach yn y sector, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r angen i weithio mewn ffordd gost-effeithiol.

Bydd yr adolygiad yn ystyried pa swyddogaethau masnachol sy'n allweddol ar gyfer pob sefydliad a pha rai y byddai modd eu huno o dan 'Cymru Hanesyddol'.

### Amcanion

1. Cynnal adolygiad gan gymheiriaid o'r gwaith o ddatblygu achos busnes o blaid creu Cymru Hanesyddol;

2. Cytuno ar ddiben, ffurf a swyddogaeth Cymru Hanesyddol, ac ar y sefydliadau sy'n rhan o'i gwmpas;

3. Paratoi cynllun gweithredu, gan gynnwys amserlen a phennu adnoddau ar gyfer creu Cymru Hanesyddol.

### Pa mor aml y cynhelir y cyfarfodydd

Bydd y grŵp yn cyfarfod bob mis ac yn cyflwyno achos busnes i Ysgrifennydd y Cabinet erbyn mis Ionawr 2017. Bydd yr achos hwn yn sail i ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd y grŵp yn cefnogi pob agwedd ar y broses ymgynghori a bydd yn

ystyried yr ymatebion a fydd yn dod i law cyn llunio'r adroddiad terfynol ar gyfer Ysgrifennydd y Cabinet.

**Aelodaeth**

Cyfarwyddwr Cymru – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Cadeirydd
Cyfarwyddwr, Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth – Llywodraeth Cymru
Prif Weithredwr a chynrychiolydd ar ran y Bwrdd – Amgueddfa Cymru
Prif Weithredwr a chynrychiolydd ar ran y Bwrdd – Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Prif Weithredwr – Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Swyddogion Cenedlaethol – Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS), Prospect, FDA
Ochr yr Undebau Llafur (Cadeirydd) – Llywodraeth Cymru
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol – Llywodraeth Cymru
Dirprwy Gyfarwyddwr – Cadw/Yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (Llywodraeth Cymru)
Dirprwy Gyfarwyddwr – Cadw (Masnachol ac Eiddo) (Llywodraeth Cymru)

***Cynorthwyir gan***

Arbenigwyr ym maes y gyfraith ac yn y swyddogaethau perthnasol
Ysgrifenyddiaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru
Annibynnol – Cyfarwyddwr Datblygu (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)